# COFNODION O BENDERFYNIADAU'R WEITHREDIAETH

## BWRDD GWASANAETHAU'R AMGYLCHEDD, ADFYWIO A STRYDLUN Y CABINET

## 6 HYDREF 2023

**Aelodau'r Cabinet:**

Y Cynghorwyr: S Jones a J Hurley

**Swyddogion yn Bresennol:**

S Brennan, D Griffiths, M Roberts, C Morris, N Jones, T Rees ac R Turner

**Gwahoddedigion Craffu**

S Pursey ac R Wood

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

   Cytunwyd penodi'r Cynghorydd S Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

   Ni chafwyd unrhyw gyhoeddiadau.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni chafwyd unrhyw gyhoeddiadau

4. **BLAENRAGLEN WAITH**

   Nodwyd y Flaenraglen Waith.

5. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

   Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau

## 6. RHESTR O GONTRACTWYR CYMERADWY

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, caiff y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy ei diwygio fel a ganlyn:-

Cwmnïau a fydd yn cael eu hychwanegu at y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy, sydd wedi pasio'r asesiadau angenrheidiol:-

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| Velta Construction Ltd (V014) | 71,72,76,80 |
| Platinum Security Management Ltd (P056) | 3 |
| Algeco Storage Ltd (M053) | 10 |

Cwmnïau a fydd yn cael eu tynnu oddi ar y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy oherwydd methiant i fodloni meini prawf Iechyd a Diogelwch CBSCNPT:-

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| Atom Electrical Contractors (A059) | 43,50,70 |
| W & B A Carpets (W029) | 18,18A,18B,18C,18D,32 |
| Roger Jones & Sons (J011) | 16,51,111 |
| Thortech Ltd (T022) | 80,81,92,111 |
| Dyfed Alarms (D028) | 47,48,49 |
| Fastec Electrical Services Ltd (F014) | 22,41,43,47,48,49,68,70 |

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Sicrhau bod y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn gyfoes, a chyhyd ag y bo modd, sicrhau proses gaffael gystadleuol.
Caiff yr argymhellion hyn eu mabwysiadu at ddiben darparu Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy ar gyfer gwahoddiad i dendro yn y categori perthnasol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn a ddaeth i ben am 9am ddydd Mawrth, 10 Hydref 2023.

## 7. PEN Y DRE, CASTELL-NEDD GORCHYMYN (DIRYMU AROS CYFYNGEDIG, 1 AWR, GWAHARDD DYCHWELYD O FEWN 2 AWR, DYDD LLUN I DDYDD SADWRN, 8AM I 6PM, AC EITHRIO DEILIAID HAWLEN) 2022

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

- Bydd y gwrthwynebiadau'n cael eu cadarnhau o ran Gorchymyn Pen-y-Dre, Castell-nedd (Diddymu Gorchymyn Aros Cyfyngedig, 1 Awr, Dim Dychwelyd o fewn 2 Awr, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, 8AM tan 6PM, ac Eithrio Deiliaid Hawlenni) 2022 (fel y manylir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd) a chaiff y cynllun ei dynnu'n ôl.

- Hysbysir y gwrthwynebwyr o'r penderfyniad yn unol â hynny.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Bydd y gorchymyn yn parhau i fod ar waith o ganlyniad i argaeledd cyfyngedig parcio ar gyfer preswylwyr ym Mhen-y-Dre, Castell-Nedd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 10 Hydref 2023.

## 8. MESURAU ARAFU TRAFFIG YN Y B4434 TONNA UCHAF - GORCHYMYN CYLCHFAN BACH, CYFFORDD HEOL CAREDIG A CHYFFORDD PEN Y BRYN 2023

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

- Gwrthod y gwrthwynebiad i Orchymyn Mesurau Tawelu Traffig yn B4434 Tonna Uchaf - Cylchfan Bach, Cyffordd Heol Caredig a Chyffordd Pen-y-bryn 2023 (fel y manylir yn Atodiad A, B a C i'r adroddiad a ddosbarthwyd) a bydd y cynllun yn cael ei roi ar waith fel yr hysbysebwyd.

- Hysbysir y gwrthwynebydd o'r penderfyniad yn unol â hynny.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Roedd angen y llwyfannau arafu arfaethedig er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 10 Hydref 2023.

## 9. DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL 2023/2024 - CHWARTER 1 (1 EBRILL 2023 - 30 MEHEFIN 2023)

**Penderfyniad:**

Nodi’r adroddiad.

## 10. EITEMAU BRYS

Derbyniwyd 3 eitem brys.

## 11. CYTUNDEB ARFAETHEDIG AR GYFER PRYDLESU A PHRYDLESU UNED FANWERTHU 2 O FEWN Y DATBLYGIAD HAMDDEN A MANWERTHU NEWYDD YNG NGHANOL TREF NEDD I DREFI BYCHAIN

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

- Bydd yr aelodau'n cymeradwyo cytundeb am brydles a'r brydles yn ôl y telerau a nodwyd yn yr adroddiad.

  **Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

  Bydd caniatáu'r cytundeb am brydles a'r brydles yn caniatáu i'r safle gwag hwn sydd mewn lleoliad amlwg gael ei osod a'i weithredu gan gwmni lleol a darparu incwm blynyddol i'r cyngor.

  **Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

  Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 10 Hydref 2023.

## 12. PRYDLES ARFAETHEDIG AR HEN SAFLE MANWERTHU CYFYNGEDIG WILKO SY'N CYNNWYS RHAN O'R LLAWR GWAELOD A'R LLAWR CYNTAF YN Y MAES PARCIO AML-STROE YNG NGHANOL TREF CASTELL-NEDD I CDS (ARCHFARCHNADOEDD RHYNGWLADOL) CYFYNGEDIG T/A YR AMRDIAD

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

- Bydd aelodau'n cymeradwyo'r brydles yn ôl y telerau a nodwyd yn yr adroddiad, yn amodol ar ganiatâd Llywodraeth Cymru.

- Yn amodol ar y brydles bresennol gan y cwmni'n dod i ben o ganlyniad i hysbysiad ymadael neu ddull arall o derfyniad.

  **Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

  Bydd caniatáu'r brydles yn caniatáu i'r safle gwag hwn sydd mewn lleoliad amlwg, a fydd yn wag yn fuan, gael ei osod a'i weithredu gan gwmni lleol a darparu incwm blynyddol i'r cyngor.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 10 Hydref 2023.

## 13. ILDIO PRYDLES BRESENNOL A RHOI CYTUNDEB NEWYDD AR GYFER PRYDLESU CIOSG ARLWYO A THIR CYFAGOS YM MHEN GORLLEWINOL GLAN MOR ABERAFAN PORT TALBOT

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

- Bydd aelodau'n cymeradwyo'r amodau a thelerau diwygiedig ar gyfer ildio'r brydles bresennol ar gyfer y ciosg arlwyo a'r tir cyfagos.
- Caniatáu'r cytundeb am brydles a'r brydles er mwyn hwyluso ailddatblygiad cyfleuster ciosg arlwyo newydd yn ochr orllewinol Glan Môr Aberafan, Port Talbot.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Er mwyn galluogi'r tenant i ailddatblygu a darparu cyfleuster ciosg arlwyo gwell newydd ar ben gorllewinol Glan Môr Aberafan er lles yr ymwelwyr a'r awdurdod lleol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar unwaith.

**CADEIRYDD**

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag